**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 5 Mehefin 2001 |
| **Amser** | 9:30 a.m. |
| **Lleoliad** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| John Griffiths | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Ron Davies & Val Feld

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy’n codi: LEG-14-2001 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai 2001.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Nid oedd unrhyw faterion i adrodd yn ôl yn eu cylch.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC269: Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001**
3.1 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau drafft fel LC269 (Adroddiad).

**LC270: Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2001**
3.4 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau drafft fel LC270 (Adroddiad).

**LC271: Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001**
3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau drafft fel LC271 (Adroddiad).

**LC272: Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Gweithrediaeth) (Cymru) 2001**
3.10 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn drafft fel LC272 (Adroddiad).

**LC273: Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001**
3.13 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.14 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.15 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau drafft fel LC273 (Adroddiad).

**LC274: Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001**
3.16 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.17 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.18 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC274 (Adroddiad).

**LC275: Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001**
3.19 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.20 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Gan fod y rhain yn fân wallau drafftio cytunwyd y dylid eu diwygio o dan RhS22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn nodi ei fod yn amodol ar gywiro'r gwallau yn y modd hwn.

3.21 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC275 (Adroddiad).

**LC276: Rheoliadau Ffrwythloni Gwartheg yn Artiffisial (Trwyddedau Brys) (Cymru) 2001**
3.22 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.23 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.24 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC276 (Adroddiad).

**LC277: Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 7) 2001**
3.25 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.26 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.27 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC277 (Adroddiad).

**Eitem 4: Gohebiaeth y Pwyllgor**
**Llythyr oddi wrth Carwyn Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, dyddiedig 24 Mai 2001**
4.1 Dywedodd y Cadeirydd iddo dderbyn ymateb i'w lythyr dyddiedig 3 Ebrill at Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig ar y **Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 4) 2001** (LC210). Ystyriai'r Pwyllgor fod modd adrodd yn ôl ynghylch y Gorchymyn o dan Reol Sefydlog 11.5 yn sgîl gwall drafftio. Roedd y Gorchymyn yn darparu ar gyfer mewnosod paragraff ychwanegol (5) ar ôl paragraff (4) yng

Nghymal 3 Gorchymyn 1983. Fodd bynnag, nid ymddangosai fel pe bai paragraff (4) yn bodoli. Mynegodd y Pwyllgor hefyd eu pryderon ynghylch absenoldeb testun Cymraeg.

4.2 Yn ei ymateb nododd Mr Jones er bod y rhifo yn ddiffygiol nad oedd hynny'n effeithio ar ddilysrwydd yr adroddiad ac mai'r bwriad oedd cywiro'r rhifo wrth baratoi Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau newydd a fydd yn atgyfnerthu Gorchymyn 1983 gydag unrhyw ddiwygiadau.

4.3 O ran absenoldeb testun Cymraeg nododd Mr Jones mai testunau Saesneg yn unig a baratowyd oherwydd brys y sefyllfa. Nid oedd llawer o amser ar gyfer paratoi a gan yr ystyriwyd ei fod yn bwysig i'r fframwaith cyfreithiol yn Lloegr a Chymru fod yn union yr un fath a'u bod yn dod i rym ar yr un pryd. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd cyhoeddi'r rheoliadau hyn cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, roeddent o'r farn y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol allu dangos mwy o ymrwymiad i ddeddfwriaeth ddwyieithog drwy osod gweithdrefnau yn eu lle a oedd yn caniatáu cyfieithu'r rheoliadau cyn gynted ag y bo'n angenrheidiol. Cytunodd y Pwyllgor y dylai eu pryderon ynghylch pwysigrwydd darparu testun dwyieithog gael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor. **Gweithredu: Clerc.**

4.4 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC210 (Adroddiad). Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r adroddiad hwn.

**Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**
5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 12 Mehefin 2001.

Adroddiadau a Atodir

- LC269 (Adroddiad)
- LC270 (Adroddiad)
- LC271 (Adroddiad)
- LC271 (Adroddiad)
- LC272 (Adroddiad)
- LC273 (Adroddiad)
- LC274 (Adroddiad)
- LC275 (Adroddiad)
- LC276 (Adroddiad)
- LC277 (Adroddiad)
- LC210 (Adroddiad)